# Cofnodion Cyfarfod CCG 29.6.23

Neuadd Cymuned Glantwymyn

**19:515: Presennol**: Gareth Wyn Jones (Cadeirydd), Deryck Lewis, Dafydd Evans, Elwyn Vaughanz, Aeron Pughe, Aled Griffiths, Rhodri Wigley, Sandra Evans (Clerc)

**19:516: Ymddiheuriadau**: Gwen Lloyd, William Owen, Gwenfair Rhys-Davies, ,Gareth Owen, Bedwyr Fychan, Iwan Jones, Glyn Jones, Paul Hughes

**19:517: Datganiadau o ddiddordeb**:

**19:518: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Ebrill**

**19:518:1:** Nodwyd mai gwell fyddai aralleirio datganiadau o ddiddordeb fel a ganlyn Enw – Cysylltiad yn hytrach na 'mewn perthynas â'.

**19:518:2:** Nodwyd bod Dafydd Evans yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf.

**19:518:3:** Cynigiwyd y dylid safoni termau e.e. gwteri.

Cynigwyd bod y cofnodion yn gywir fel arall gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Dafydd Evans.

**19:519:** Derbyn cofnodion cyfarfod arbennig 8.6.23

Nodwyd y dylid cofnodi cyd-destun i'r cyfarfod. Ym mis Mawrth cafwyd cyflwyniad gan Draed Bêch Twymyn i egluro eu pryderon o ganlyniad i gostau trydan annisgwyl o uchel. Cafwyd trafodaeth, pleidlais a phenderfyniad y dylid cyfrannu £5,000.00. Yng nghyfarfod mis Ebrill gofynnwyd a oedd y swm yn briodol o ran maint y gallai'r Cyngor ei roi o fewn blwyddyn ariannol. Deallwyd wedyn nad oedd yr eitem ar yr agenda ac felly nid oedd y penderfyniad yn ddilys. Cafwyd gwybod erbyn cyfarfod mis Mai bod y taliad o fewn gwariant blynyddol posib y Cyngor. Gan nad oedd yr eitem wedi ei chynnwys ar agenda mis Mai, penderfynwyd cynnal cyfarfod arbennig i drafod eto yn unol â threfn gywir cynnal cyfarfodydd cynghorau cymunedol.

**19:520: Adroddiad y Clerc:**

**19:521: Cynllunio-:** Dim

**19:522: Materion Ariannol ac eitemau i'w talu:**

- Cyflog y Clerc Mawrth mis 2 Mai £ 302.40
- Gloversure 25329 £42.00 ac 24563 £33.60 (7.4.23) 25229

- Whittingham Riddell 193468 £108.00 Cyflogres,

  Cynigiwyd y dylid talu'r rhain gan Aeron Pughe ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths.

- £4,200.00 Rhodri Wigley am adfer wal eglwys Llanwrin

  Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Dafydd Evans

- (Taliadau y cytunwyd arnynt mewn cyfarfodydd blaenorol)

  Cais am arian gan Maureen Fairclough, Dovey Valley Hotel - £125 tuag at fatri diffib, Traed Bêch Twymyn £5,000.00)

**19:523: Gohebiaeth:** Holiadur gan Whittingham Riddell yn gofyn am adborth am eu gwasanaeth.

**19:524: Baw cŵn Cemaes** – Bu Gareth Wyn Jones a Deryck Evans mewn cyfarfod â James Thomson o Gyngor Sir Powys i ofyn am finiau i Gemaes ond chafwyd dim cynnydd yn y mater. Barn Mr Thomson oedd bod y biniau sydd yno ar hyn o bryd a brynwyd gan breswylwyr lleol yn gwneud y tro yn iawn. Mynegir pryderon parhaus gan y Cyngor am leoliad y biniau gan fod rhai wedi eu gosod yn agos at fynedfeydd i lefydd cyhoeddus ac yn blocio mynediad i eiddo.

**19:524: Diffibriliwr Llanwrin** Diolch i William Owen am dynnu'r silff o'r ciosg. Gofynnir i Osian Lewis symud y cwpwrdd diffib i'r tu mewn.

**19:525: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**<u>Elwyn Vaughan - Y Cyngor Sir</u>**

Hartwood saunas - Bydd y cais cynllunio'n cael ei ail-gyflwyno. Byddai'r datblygiad hwn yn dod â nifer o swyddi i'r ardal.

Iard y Cyngor yn Llanbrynmair - Bwriad Cyngor Sir Powys yw cau'r iawd. Mae'r halen wedi cael ei symud o 'na. Mae sawl reswm i gwestiynu doethineb y penderfyniad hwn gan gynnwys y ffaith bod Powys yn derbyn pres ar gyfer cynnal yr iawd a bydd colled o ran incwm a hefyd bydd rhaid cario halen o Lanidloes.

Ambiwlans awyr Cymru - Mae Stephen Harrison comisiynydd GIG yn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol gan gynnwys cadw at y cynllun gwreiddiol sef cau'r safle lleol, a chadw dwy ganolfan - un yn y Trallwng ac un yng Nghaernarfon.

Byddai'r ddwy'n rhannu shifftiau gyda cherbyd brys yn y gogledd ddwyrain gan mai Shotton a'r Wyddgrug yw'r llefydd gyda'r galw uchaf. Awgrym Elwyn Vaughan oedd yr ail un.

Erbyn diwedd mis Awst bydd yr opsiynau wedi cael eu blaenoriaethu a cheir penderfyniad terfynol erbyn mis Tachwedd.

**Llywodraethwyr Ysgol Glantwymyn Rhodri Wigley**

Cafwyd cyflwyniad ddiwedd blwyddyn ddiddorol, llawn amrywiaeth a daeth yn amlwg cymaint mae'r plant yn mwynhau eu haddysg. Mae nifer y plant wedi disgyn ac mae gostyngiad o ran y cyllid felly ond bydd yr ysgol yn dal i allu cadw pedwar o athrawon.

Llongyfarchiadau i Mrs Bethan Gwawr yn ei rôl ymgynghorol. Mae hwn yn adlewyrchu safon y ddarpariaeth a geir yn yr ysgol. Ceir £8,000.00 i ariannu athrawon i gyflenwi ar gyfer y dyddiau y bydd yn absennol.

**19:526: Materion Ffyrdd a Phontydd:**

- Cloddiau rhwng Ffriddgate a Chanolfan y Dechnoleg Amgen - cyflwynwyd cais brys i dorri'r gwair wrth ochr y ffyrdd yn barod. Nodwyd bod llefydd eraill o fewn ardal wedi cael eu torri ond bod hyn yn hwyr yn yr ardal hon o'i chymharu ag ardaloedd eraill yn y sir. Er bod CC Glantwymyn yn cefnogi hybu bioamrywiaeth ni ddylai hynny fod ar draul diogelwch e.e. wrth gyffyrdd. Cysylltir â Chyngor Sir Powys.
- Sietyn wrth gyrraedd Abercegir ger y Ffatri Isaf – angen ei dorri. Bydd Elwyn Vaughan yn siarad â'r perchnogion.
- Coed wrth Glan–yr-afon, Cemaes - perygl i ddefnyddwyr ffordd. Adroddir hyn i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGCC)

**19:527: Unrhyw Fater Arall:**

Meinciau - Cafwyd trafodaeth am eu diogelu a hefyd am roi plac cydnabyddiaeth i'r Cyngor am eu gosod. Penderfynwyd rhoi neges ar y cyfryngau cymdeithasol.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth 1af o Awst.

**Melinau Gwynt 29.6.23**

- Penderfynwyd cysylltu ag EDF i ofyn eto am gopi o'r cytundeb arfaethedig. Bydd y Cyngor yn ceisio cyngor ymgynghorydd annibynnol am swm priodol a theg.
- Derbyniwyd llythyr i ddiolch am y cyfraniad i Gapel Cemaes a holi pam fod y swm yn llai na thaliad y llynedd. Bydd y Cyngor yn cadw hyn mewn cof at y dyfodol.
- Cais am arian ar gyfer Lara Halfpenney i fynychu Coleg y Cymoedd, Ystrad Mynach, Caerdydd i wneud level 3 BTEC mewn chwaraeon a phêl-droed. Penderfynwyd rhoi £200.00 gan ddymuno'n dda iddi. Cynigiwyd hyn gan Aeron Pughe ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths.